"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, **8fed Chwefror, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.05 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Ifor Owen, Glenys Williams a'r Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir.

## 83. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd, yn ôl yr arfer, i'r Cynghorydd Michael Strain am hwyluso'r trefniant o gael cyfarfod dros 'zoom.' Dymunodd hefyd benblwydd hapus arbennig i'r Cynghorydd Ifor Owen.

## 84. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

## 85. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 11eg Ionawr, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sion Williams.

### MATERION YN CODI –
### (1) Eitem 74 – Materion Iechyd (tudalen 1)

**Nodwyd** na fyddai Dr. O.G. Morris yn ymuno a'r Cyngor y mis hwn oherwydd pwysau gwaith.
**Penderfynwyd** ei wahodd i gyfarfod mis Mawrth, ac os na fyddai'n bosibl iddo ymuno, gofyn am adroddiad beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf.

### (2) Eitem 76 – Materion Ffyrdd a Llwybrau (tudalen 2)

**(a)** **Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn ymateb Peiriannydd Rhanabrthol Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gŵyn anfonwyd i'w sylw ynglyn a'r ffordd o Graig Fael i Graig Ewig, Bryncroes, fel a ganlyn fod
**"y tyllau ar y ffordd yma wedi ac yn derbyn sylw i'r gorau y gellir. Byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol am y llecyn penodol sy'n eitem yn codi'n aml gennych, fod y ffordd wedi ei chynnwys ar restr waith ailwynebu dymunol Ardal Dwyfor. Mae'r rhestr yma yn aros am yn ôl i ddisgwyl sylw oherwydd diffyg cyllideb cyfalaf strwythurol."**

(b) **Yn absenoldeb Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir,** adroddwyd iddo dderbyn dau arwydd newydd gan y Swyddog Gwarchod (arwyddion coch gyda rhybudd clir fod yna £100 o ddirpwy yn y fan a'r lle os bydd y perchennog yn cael ei ddal ddim yn codi'r baw ci). Bellach mae'r

Cynghorydd Gareth Williams wedi gosod un arwydd ar y goeden wrth yr Eglwys a'r llall ar bosynt ymhellach i fyny am Bengopa.

Problem arall y cyfeiriodd ati oedd nad oedd bin halen yng nghanol y pentref ym Mryncroes.
'Roedd Y Cynghorydd Gareth Williams eisoes wedi anfon e-bost at ADRA i holi os mai eu cyfrfoldeb nhw fyddai hyn, "ond mae nhw wedi ateb yn syth trwy ddweud mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymunedol fyddai hyn yn anffodus."
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth uchod a cheisio cael gwybod a fyddai Cyngor Gwynedd yn barod i roi bin halen ar ffordd Ystad Bryn Mair, Bryncroes.

(c) **Eitem 78 – Adroddiad yr Is-bwyllgor ariannol a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson (tudalen 3)**
**Cyflwynwyd** e-bost dyddiedig 14eg Ionawr, 2021, gan Bennaeth Cyllid Cynorthwol Cyngor Gwynedd ynglyn a threth y Cyngor. (Copi wedi ei anfon at bob aelod gyda rhaglen y Cyngor).
Y farn gyffredinol oedd mai er gwybodaeth oedd yr e-bost ac nad oedd y Cyngor yn dymuno ymateb iddo.
**Penderfynwyd** nodi'r e-bost.

(ch) **Eitem 82 – Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rhent flaen – 5ed Gorffennaf, 2021**
**Ystyriwyd** e-bost dderbyniwyd gan Un Llais Cymru ynglyn a dathlu'r achlysur uchod ar 5ed Gorffennaf, 2021. 'Roedd y Clarc wedi paratoi gwybodaeth i'w roi i fyny yn lleol ac ar wefan y Cyngor a darllenwyd y cyfryw i'r aelodau.
**Penderfynwyd** symud ymlaen i roi'r wybodaeth yn lleol ac ar wefan y Cyngor ac hefyd i gofyn i ohebwyr Llanw Llyn ym Motwnnog, Sarn Mellteryn, Bryncroes a Phenygroeslon, roddi gwybodaeth am y diwrnod arbennig yma hefyd a gofyn am syniadau.
(Nodyn – addawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts roi'r poster i fyny yn lleol a diolchwyd iddo).

## 86. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:**

(a) Cais C21/0018/32/DT – estyniad deulawr ar y cefn – Trofa, Sarn Mellteyrn
(b) Cais C21/0028/32/LL – dymchwel sied amaethyddol bresennol ac adeiladu sied amaethyddol newydd – Cae Du, Brynmawr
(c) Cais 20/0124/32/LL – cynlluniau diwygiedig – dymchwel yr adeiladau garej a bloc toiledau presennol. Datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys codi siop garej newydd gyda gwasanaeth gwerthu prydau parod, blaengwrt a phympiau tanwydd – Pen-y-bont Garage, Sarn Mellteyrn

**Penderfynwyd** cefnogi'r tri chais uchod ond i ychwanegu un amod at gais (c) uchod fod darpariaeth ar gyfer toiledau cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y caniatad.

## 87. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd** anfon y mater a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd - tyllau dwfn yn y ffordd o Lon Goch i lawr am bentref Sarn ac angen sylw brys.
**Yn y cyswllt hwn** codwyd mater gan Y Cynghorydd Ifor Owen fod y grisiau sy'n arwain i fyny at Lwybr Pengopa, Bryncroes, wedi tyfu ac yn berygl. 'Roedd y Clarc eisoes wedi anfon y mater ymlaen i'r Swyddog Llwybrau gan ofyn iddo gyfarfod Y Cynghorydd Ifor Owen i drafod mater arall a godwyd ynglyn a'r llwybr yma yn ol ym Mis Hydref y llynedd.

88. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

89. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

**Gofynnodd** y Clarc a fyddai modd plygu'r rheol a rhoi sylw i'r ddau isod am gyfraniad ariannol. Cytunodd yr aelodau i hyn.
Trafodwyd y ddau gais a **phenderfynwyd** fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfeillion Mynwent Mellteyrn at gadw'r fynwent | £125 (siec 200723) |
| Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru | £ 25 (siec 200722) |

Noder fod siec 200721 wedi ei difetha a'i dinistrio.

90. **AWDURDOD I DALU**

Nodwyd nad oedd anfoneb Llanw Llyn i law felly nid oedd unrhyw gyfrif angen ei dalu.

91. **LLWYBRAU CYHOEDDUS**

**Nodwyd** fod gwybodaeth i law mai £229 oedd ei ei glustnodi am y flwyddyn 2021/22 ar gyfer barbio llwybrau cyhoeddus yng nghymdeithas Botwnnog.

92. **CYNGOR TREF NEFYN**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Gadeiryddes Cyngor Tref Nefyn ynglyn a'r broblem dai sydd yn bodoli ym Mhen Llyn ar hyn o bryd. 'Roedd y Gadeiryddes yn gofyn am i'r Cyngor anfon llythyr (oedd wedi ei baratoi ganddi) o gefnogaeth at Julie James, AS, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gyda chopi at Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a'r Cynghorydd Dyfrif Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd.
**Penderfynwyd** cefnogi'r syniad ond addasu ychydig ar y llythyr er osgoi i'r cyfryw fod yn undonog ac felly yn colli ei effaith. Copi o'r llythyr anfonwyd yn amgaeedig.